OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1004 (Cy. 242)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 14 (Madryn), Gwynedd) (Gwahardd Troi i'r Dde a Cherbydau Llydan Dros Dro) 2016

*Gwnaed* *13 Hydref 2016*

*Yn dod i rym* *23 Hydref 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Hydref 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 14 (Madryn), Gwynedd) (Gwahardd Troi i'r Dde a Cherbydau Llydan Dros Dro) 2016.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 23 Hydref 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 14 (Madryn) yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde na gwneud troad pedol o un gerbytffordd i'r llall drwy'r bylchau yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 3.85 metr o led neu'n fwy fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 13 Hydref 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Troi i'r Dde/Troadau Pedol Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Cerbydau sy'n Lletach na 3.85 metr Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 14 (Madryn) hyd at ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont).